

EGWYDDORION ANSAWDD

ASTUDIAETH ACHOS CANOLFAN MILENIWM CYMRU A PHLANT Y CYMOEDD

PROSIECT RADIO PLATFFORM @ Y FFATRI

Yma mae Alan Humphreys, Cynhyrchydd Dysgu Creadigol yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn dweud wrthym am ei brofiad o ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd ar y prosiect Radio Platfform.


AM Y PROSIECT

Mae gorsaf radio Canolfan Mileniwm Cymru sy'n cael ei harwain gan bobl ifanc, Radio Platfform, wedi bod yn rhedeg yng Nghaerdydd ers 2016. Yn 2019, agorwyd chwaer orsaf radio yn y Ffatri yn Porth fel rhan o bartneriaeth Together Stronger gyda Phlant y Cymoedd, gyda chefnogaeth Sefydliad Paul Hamlyn.

Mae Radio Platfform yn cynnig hyfforddiant am ddim mewn radio wedi ei achredu yn llawn, gydag hyfforddiant ar-lein ac all-lein. Yna mae gan raddedigion y cyfle i gyflwyno eu sioeau eu hunain a chreu eu podlediadau eu hunain - a chael dweud eu dweud o ran sut y mae'r radio yn cael ei rhedeg.

SUT WNAETHOCH CHI DDEFNYDDIO'R EGWYDDORION ANSAWDD?

Fe wnaethom ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd i sicrhau ffocws, eglurder a chytundeb rhwng aelodau'r staff oedd yn goruchwylio a chyflawni prosiect Radio Platfform yn y Ffatri. Mae'r tîm partneriaeth yn gweithio yng Nghaerdydd a'r Porth, felly roedd yn bwysig cael pawb i edrych pam ein bod yn gwneud y prosiect, sut y byddai'n gweithio a beth oedd yr heriau.



Mewn cyfarfod cynllunio prosiect, fe wnaethom ddefnyddio'r Daflen Waith Egwyddorion Ansawdd i drafod pob un o'r naw pennawd. Roedd hon yn ffordd wych o sicrhau ein bod yn trafod holl feysydd gwahanol y prosiect.



Defnyddiwyd y drafodaeth hon fel sylfaen ar gyfer y cynnig a chynllun prosiect y gallai'r tîm cyfan gytuno ag o a gweithio oddi wrtho.

Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, rydym yn dal i gyfeirio at y cynllun hwnnw, i sicrhau ein bod yn gweithio tuag at yr un pam, beth a sut ar gyfer y prosiect. Y drafodaeth gychwynnol honno, wedi ei seilio ar y naw Egwyddor Ansawdd, yw sylfaen gadarn y prosiect.

PWY OEDD YN CYMRYD RHAN?

Fe wnaethom gynnwys y tîm cyfan oedd yn gweithio ar gynllunio a chyflawni'r prosiect, yn y Porth a Chaerdydd. Mae hyn yn cynnwys Rheolwyr Prosiect, y Cynhyrchydd Dysgu Creadigol, y Gweithiwr Celf Ieuencid a Rheolwr yr Orsaf.

Yn y dyfodol, byddem yn hoffi edrych sut y gallwn ddefnyddio'r offer Egwyddorion Ansawdd gyda phobl ifanc sy'n ymwneud â'r prosiect.



BETH WNAETHOCH CHI EI DDYSGU?

Fe wnaeth defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd fel fframwaith i'n helpu i ddynodi heriau a gwendidau'r prosiect ac yna trafod sut i'w goresgyn. Fe wnaethant roi strwythur i ni ei ddilyn wrth gynllunio'r prosiect, i wirio ein bod wedi meddwl am bopeth yr oedd angen i ni wneud.

Wrth i'r prosiect ddatblygu, rydym wedi gallu dal i atgoffa ein hunain o'r hyn yr ydym wedi bwriadu ei gyflawni ac rydym wedi addasu rhai rhannau ar hyd y ffordd i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio yn barhaus.

AWGRYMIADAU DA

- Defnyddiwch y penawdau ar gyfer pob Egwyddor fel canllaw a gwneud iddyn nhw weithio ar gyfer eich prosiect chi. Peidiwch â chael eich llethu gan y posibiladau o ran beth i'w drafod, rhaid i chi ei deilwra ar gyfer eich prosiect a sicrhau eich bod yn trafod yr agweddau pwysicaf.
- Meddyliwch am yr Egwyddorion Ansawdd fel rhestr wirio ddefnyddiol iawn i'w defnyddio wrth gynllunio a monitro'r prosiect, i sicrhau eich bod yn cynnwys popeth. Maent yn fwy na dim ond ffordd o warantu 'ansawdd'.

RHAGOR O WYBODAETH

www.wmc.org.uk
factoryporth.uk/radio-platfform



CANOLFAN
MILENIWM
CYMRU
WALES
MILLENNIUM
CENTRE®



ArtWorks
Cymru